

A top-down photograph of a wooden desk. In the top left, a green plant with variegated leaves sits in a white pot. A white notebook with a pen is open in the top center. In the bottom right, a hand in a blue sleeve holds a pen over a document with a grid. A red pen and a blue pen are also visible on the desk.

Briff Ymchwil Cyngor Cyfreithiol - Canllaw i etholwyr

Awdur: **Lucy Hodson**
Dyddiad: **Mehefin 2017**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Lucy Hodson**
Dyddiad: **Mehefin 2017**
Rhif Papur: **FAQ16-013**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6324
✉ : Lucy.Hodson@Cynulliad.Cymru
🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion
🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

**Cymorth i chwaraeon yng
Nghymru - canllaw i etholwyr**



Contents

01. Cyflwyniad	1
02. Cael hyd i gyfreithiwr.....	1
03. Cymorth Cyfreithiol	1
04. Pro bono	2
LawWorks.....	2
Uned Pro Bono'r Bar	2
05. Ffynonellau eraill o gyngor.....	2
Cyngor ar Bopeth.....	2
Yswiriant ac aelodaeth	3
06. Ffynonellau penodol o gyngor	3
Shelter Cymru.....	3
Mind.....	3
National Debtline.....	3
Disability Law Service	4
Rights of Women	4
Age UK.....	4

01. Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu ffynonellau a all roi cymorth a gwybodaeth, o bosibl, i'r rhai sy'n chwilio am gyngor cyfreithiol, ac yn dangos sut i gysylltu â nhw.

Mae nifer o wahanol ffyrdd o gael help a chynghor i fynd i'r afael â phroblem. Cewch gyngor wyneb yn wyneb, yn ddi-dâl, mewn canolfannau cynghori, Cyngor ar Bopeth, a chanolfannau'r gyfraith. Gall rhai canolfannau cynghori a chanolfannau'r gyfraith helpu gyda gwahanol broblemau, a gall eraill gynnig help mewn maes penodol fel tai, budd-daliadau neu broblemau ariannol. Ni all y Gwasanaeth Ymchwil gymeradwyo na chymryd cyfrifoldeb am gynnwys unrhyw wefan neu gyhoeddiad a grybwyllir yn y daflen hon.

02. Cael hyd i gyfreithiwr

Bydd angen cymorth cyfreithiwr preifat arnoch i ymdrin â rhai problemau cyfreithiol. Bydd gwahanol gyfreithwyr yn arbenigo mewn gwahanol feysydd cyfreithiol – fel trosedd, addysg neu gyfraith teulu, felly mae'n bwysig eich bod yn cael hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo yn y maes priodol.

Bydd gan y rhan fwyaf o lyfrgelloedd gyfeirlyfr cyfreithwyr; neu ewch i wefan Cymdeithas y Gyfraith lle gallwch chwilio am gyfreithiwr lleol neu gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn maes penodol.

www.lawsociety.org.uk/find-a-solicitor

Mae llawer o gyfreithwyr yn cytuno i beidio â chodi tâl am yr apwyntiad cyntaf.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 020 7320 5650

Gwefan: www.lawsociety.org.uk

03. Cymorth Cyfreithiol

Gall cymorth cyfreithiol eich helpu i dalu am gyngor cyfreithiol, cyfryngu neu gynrychiolaeth mewn llys os na allwch dalu'r costau'ch hun.

Gallai hyn gynnwys help gyda phroblemau'n ymwneud â thai, dyled, gwaith, budd-daliadau neu addysg.

Cewch gymorth cyfreithiol hefyd os cewch eich cyhuddo o drosedd. Dylai cyfreithiwr neu fargyfreithiwr allu cadarnhau a all person a gyhuddir gael cymorth cyfreithiol troseddol.

Mae cymorth cyfreithiol yn dibynnu ar nifer o bethau gan gynnwys eich amgylchiadau ariannol ee faint rydych yn ennill a faint o gynilion sydd gennych, a'r math o gymorth cyfreithiol rydych yn chwilio amdano. Nid yw cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer pob math o broblemau.

Ar wefan Gov.uk, gallwch gyfrifo a ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer problemau nad ydynt yn rhai troseddol.

Gwefan: <https://www.gov.uk/check-legal-aid>

Hefyd, mae modd chwilio am gynghorwyr cymorth cyfreithiol yma: <http://find-legal-advice.justice.gov.uk/>

04. Pro bono

Os nad ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, mae rhai o'r asiantaethau isod yn gweithio gyda chyfreithwyr pro bono a all efallai'ch helpu gyda'ch achos. Pro bono yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio cymorth cyfreithiol di-dâl i'r rhai na allant fforddio talu am wasanaeth cyfreithiol ac nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol.

LawWorks

Elusen yw LawWorks a'i nod yw rhoi cyngor cyfreithiol di-dâl i unigolion a grwpiau cymunedol nad ydynt yn gallu talu amdano ac nad ydynt yn gallu hawlio cymorth cyfreithiol.

Maent yn cynnig clinigau di-dâl lle cewch gyngor cyfreithiol di-dâl, cyfryngu di-dâl a chymorth di-dâl gyda gwaith achos.

Yn y clinigau, cewch gyngor cychwynnol di-dâl - ac maent yn canolbwyntio'n benodol ar broblemau'n ymwneud â materion lles cymdeithasol, cyfraith cyflogaeth, tai a phroblemau defnyddwyr.

I gael hyd i'ch clinig LawWorks agosaf, ewch i:

www.lawworks.org.uk

Uned Pro Bono'r Bar

Mae **Uned Pro Bono'r Bar** yn paru bargyfreithwyr sy'n barod i ymgymryd â gwaith pro bono gyda'r rhai sydd angen eu help. Ni all unigolion wneud cais ond gellir gofyn i unrhyw un o'r asiantaethau isod eich cyfeirio.

– [Canolfan Cyngor ar Bopeth](#)

– [Canolfannau'r Gyfraith](#)

– [Eich AS/AC lleol](#)

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.barprobono.org.uk

05. Ffynonellau eraill o gyngor

Cyngor ar Bopeth

Gall Cyngor ar Bopeth helpu pobl i ddatrys problemau'n ymwneud â dyledion, budd-daliadau, tai, y gyfraith, gwahaniaethu, mewnfudo, materion defnyddwyr a phroblemau eraill. Maent yn rhoi cyngor di-dâl wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar e-bost. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig ymweld â chi yn eich cartref neu'n cynnig cyngor dros yr e-bost. Ar wefan CAB, gallwch gael hyd i gyfeiriad a manylion cyswllt eich swyddfa leol:

<https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/advice/>

Mae llawer o daflenni gwybodaeth ar gael ar wefan CAB ynghyd â chwestiynau cyffredin yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau cyfreithiol.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 08444 77 20 20

Gwefan: <https://www.citizensadvice.org.uk/>

Yswiriant ac aelodaeth

Mae llawer o bolisiau yswiriant yn cynnig yswiriantcostau cyfreithiol fel rhywbeth ychwanegol a all gwmpasu anghydfodau eithaf eang. Gall tanysgrifio i gylchgronau fel 'Which' hefyd fod yn ffordd o gael mynediad i linellau cymorth cyngor cyfreithiol. Yn aml, gall aelodau o Undebau Llafur hefyd gael cyngor a chymorth cyfreithiol nad yw wedi'i gyfyngu i faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

06.Ffynonellau penodol o gyngor

Hefyd, mae llawer o elusennau sy'n cynnig cyngor cyfreithiol i grwpiau penodol neu i'r rhai sydd â phroblemau penodol.

Shelter Cymru

Mae Shelter Cymru yn arbenigo mewn rhoi gwybodaeth a gwasanaeth eirioli i bobl sydd ag anghenion tai. Mae Shelter Cymru yn cynnal cymorthfeydd tai lleol. Sesiynau galw heibio yw rhai ohonynt ond mae angen trefnu apwyntiad i eraill. Mae Shelter hefyd yn rhoi cyngor arbenigol di-dâl dros y ffôn.

Gallwch ddefnyddio gwefan Shelter hefyd i chwilio am wasanaethau sy'n rhoi cyngor ynghylch tai, dyled, budd-daliadau ac iechyd.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 0345 075 5005

Gwefan: <https://sheltercymru.org.uk/>

Mind

Elusen gofrestredig yw Mind ac mae'n rhoi cyngor a chymorth i rymuso unrhyw un sydd â phroblem iechyd meddwl.

Mae ganddynt dîm cyfreithiol arbenigol sy'n gallu rhoi gwybodaeth a chynghor cyffredinol ynghylch y gyfraith yn ymwneud ag iechyd meddwl, gan gynnwys:

- iechyd meddwl
- gallu meddyliol
- gofal yn y gymuned
- hawliau dynol a gwahaniaethu/cydraddoldeb yn ymwneud â materion iechyd meddwl

Manylion cyswllt:

Ffôn: 0300 466 6463

Gwefan: <http://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/>

National Debtline

Mae'r Llinell Ddyled Genedlaethol yn rhoi cyngor a gwybodaeth am broblemau'n ymwneud â dyledion dros y ffôn neu drwy'r e-bost.

Mae'r llinell gymorth yn rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol ynghylch sut i ymdopi â phroblemau'n ymwneud â dyledion.

Hefyd, gallwch lwytho pecynnau a thafleuni gwybodaeth yn ymwneud â phroblemau penodol oddi ar wefan y Llinell Ddyled Genedlaethol:

Manylion cyswllt:

Ffôn: 0808 808 4000.

E-bost: www.nationaldebtline.co.uk/england_wales

Gwefan: www.nationaldebtline.co.uk

Disability Law Service

Pobl anabl sy'n rhedeg y gwasanaeth hwn ac maent yn rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl anabl a phobl fyddar.

Gallant roi cynghor ynghylch y meysydd a ganlyn:

- Cyfraith gofal yn y gymuned
- Cyfraith gyflogaeth a gwahaniaethu

Manylion cyswllt:

Ffôn: 020 7791 9800

Ffôn testun: 020 7791 9801

E-bost: advice@dls.org.uk

Gwefan: <http://dls.org.uk/>

Rights of Women

Elusen menywod sy'n gweithio mewn amryfal ffyrdd i helpu menywod drwy'r gyfraith.

Manylion cyswllt:

Gwefan: <http://rightsofwomen.org.uk/>

Llinellau cynghori dros y ffôn

- Cynghor am gyfraith trosedd
Ffôn: 020 7251 8887
- Cynghor am gyfraith teulu
Ffôn: 020 7251 6577
- Cynghor am gyfraith mewnfudo a lloches
Ffôn: 020 7490 7689

Age UK

Elusen yw Age UK sy'n rhoi cynghor a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i bobl hŷn drwy ei wefan a'i linell gynghori.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 08000 223 444

Gwefan: www.ageuk.org.uk/cymru